DATGANIAD I'R WASG
30 Mai 2010

CROESO I'R EISTEDDFOD

Nos Sul bydd y llenni'n codi ar Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru gaiff ei chynnal eleni ar safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron, Ceredigion. Gyda golygfa ogoneddus yn gefndir i'r ŵyl yn 2010, mae Urdd Gobaith Cymru yn edrych ymlaen at groesawu 15,000 o gystadleuwyr ifanc i'r Eisteddfod dros yr wythnos nesaf.

Bydd digwyddiadau'r ŵyl yn dechrau'n swyddogol ym Mhafiliwn yr Eisteddfod heno, gyda chyngerdd agoriadol ysblennydd yn arddangos talentau lleol. O dan arweinyddiaeth yr amryddawn Islwyn Evans, bydd Côr Ysgol Gerdd Ceredigion, Rhys Taylor, Rakhi Singh, Rhian Lois, Gwawr Edwards ac eraill yn dychwelyd i lwyfan yr Eisteddfod i swyno'r gynulleidfa.

O ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn, bydd yr Eisteddfod yn cynnig diwrnod o adloniant gwych i'r teulu cyfan. Bydd cystadlu ar y llwyfan o fore gwyn tan nos, a gall holl ymwelwyr yr Eisteddfod brofi awyrgylch gwych y cystadlu a safon uchel y perfformiadau yn y Pafiliwn, drwy brynu tocyn mynediad. Yn dilyn lansio partneriaeth newydd yn yr Eisteddfod llynedd, mae Disneyland Paris ac Eisteddfod yr Urdd yn falch o gyhoeddi y bydd enillwyr pum cystadleuaeth - Unawd Blwyddyn 2 ac Iau [166], Unawd blwyddyn 5 a 6 [168], Unawd Bechgyn blynyddoedd 7,8 ac 9 [253] ac Unawd o Sioe Gerdd Blwyddyn 10 ac o dan 19 oed [185]) - yn cael eu gwahodd i'r Ŵyl Gymreig yn Disneyland Paris ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

Mae gan Faes yr Eisteddfod lu o ddigwyddiadau ac atyniadau i ymwelwyr o bob oed. Bydd Pentre Mistar Urdd yn fwrlwm o weithgareddau bob dydd, gan arddangos holl atyniadau'r Urdd, gyda choctels ffrwythau, peintio wyneb, clowniau, podledu, celfyddyd balŵn, artist cartŵn, bît-bocsio gydag Ed Holden, cyflwynwyr plant S4C, a chyfle i gwrdd â thynnu llun gydag Mistar Urdd! Hefyd, bydd trên bach yn gadael Pentre Mistar Urdd - gan gynnig hoe fach braf i Eisteddfodwyr wrth fwynhau gweld y Maes a gerddi Llanerchaeron.

Bydd cyfle i ymwelwyr egniol yr Eisteddfod ddangos eu sgiliau chwaraeon ar y Maes, gydag Adran Chwaraeon yr Urdd yn arwain sesiynau pêl-droed, rygbi, criced, golff, pêl-foli, pêl-fasged a hoci gydol yr wythnos. Bydd staff Gwersylloedd Glan-llyn a Llangrannog hefyd yn cynnig gweithgareddau saethyddiaeth, beicio-cwad, beicio, trampolîn a sesiynau dringo.

Atyniad newydd i'r Maes eleni fydd yr arddangosfa wyddoniaeth flaengar, o'r enw Gwyddon*Le*. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, bydd digon i gadw'r hen a'r ifanc yn brysur yn Gwyddon*Le.* Bydd llu o arddangosfeydd gwyddoniaeth a chystadlaethau, gan gynnwys gweithgareddau system y gofod a'r solar wedi eu hariannu gan Gyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi eu cefnogi gan Brifysgol Aberystwyth a'r gymuned

ehangach. Mae plant ysgolion cynradd lleol Ceredigion wedi creu modelau o'r haul a'r planedau, a gellir gweld y rhain ar y Maes.

Meddai Tudur Dylan Jones, Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau:
"Datblygiad newydd arall eleni yw'r Bwyty, fydd yn cynnig prydau da mewn awyrgylch braf. Rydyn ni'n sefydlu bwyty safonol ar y Maes, a chynnig y cyfle i fwynhau pryd o fwyd yn defnyddio llawer o gynnyrch lleol, a darpariaeth wahanol i'r hyn sydd ar gynnig fel arfer yn Eisteddfod yr Urdd.

Ein partneriaid ar y cynllun yma yw Gwir Flas Cymru a Chwmni Dolen. Rydyn ni'n hyderus y gallwn gynnig darpariaeth newydd i'n hymwelwyr eleni, a bydd y Bwyty yn llwyddiant."

Atyniad newydd arall yw'r Cwtsh Cymraeg – y lle i fod i ddysgwyr a charedigion llenyddiaeth. Am y tro cyntaf bydd enillwyr cystadlaethau gwaith cartref yr Urdd yn darllen eu gwaith ar sgrin plasma yn y Cwtsh. Mae cornel stori, murlun o hoff eiriau, sesiynau cyfarfod awdur a llawer mwy yn y Cwtsh Cymraeg.

Bydd bandiau mwyaf cyffrous Cymru yn perfformio ar y llwyfan awyr agored, a bydd gweithdai cerddoriaeth o bob math, o hip hop i acwstig, roc a DJ yn digwydd yn y Stiwdio Fach. Ac ar nos Sadwrn 5 Mehefin bydd yr Urdd a Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn cyflwyno Elin Fflur a Fushanti yng Nghlwb Rygbi Aberaeron.

Mae'r Arddangosfa Gelf, Dylunio a Thechnoleg yn arddangos talent ifanc Cymru ym maes serameg, lluniau, gwehyddu a ffotograffiaeth. Thema arddangosfa eleni yw Teimladau.

Meddai Deian Creunant, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith Lleol:
"Mae gan yr Urdd gefnogaeth gref yng Ngheredigion, gyda'r mudiad yn cyffwrdd bywydau'r rhan fwyaf o ieuenctid yr ardal. Dros y dair blynedd ddiwethaf o godi arian a chodi ymwybyddiaeth, mae brwdfrydedd y trigolion lleol, yn hen ac ifanc, o bob cwr o'r sir, wedi bod yn aruthrol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at bob munud o'r ŵyl ac yn edrych mlaen i groesawu pawb i Geredigion ac i'r Eisteddfod ei hun. Bydd croeso cynnes i bawb yn Eisteddfod yr wythnos hon."

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau Urdd Gobaith Cymru:

"Mae'r wythnos hon yn benllanw tair mlynedd o waith caled gan dîm brwdfrydig o wirfoddolwyr lleol. Mae'n bleser gen i gyhoeddi heddiw bod y gronfa leol wedi hen basio'r targed o £300k, ac mae'r Urdd yn hynod o ddiolchgar i bawb a gyfrannodd. Mae'r Urdd hefyd yn ddyledus i Gyngor Ceredigion am eu cefnogaeth, ac i Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru am eu hariannu."

Meddai Keith Evans, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion:
"Mae'n anrhydedd ac yn fraint i Gyngor Sir Ceredigion groesawu Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru i'r sir. Mae Eisteddfod yr Urdd yn derbyn cymorth ariannol mewn pecyn sy'n cael ei gydlynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru – ac mae holl awdurdodau lleol Cymru, a Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu i'r pecyn. Golyga hyn y gall yr Urdd, o bosib, ymweld â mwy o ardaloedd Cymru, gan na fydd bellach yn cael ei chyfyngu gan anallu unrhyw ardal benodol i gynorthwyo'n ariannol. Mae'n

destun pleser fod y trefniant newydd wedi dechrau yma yng Ngheredigion, o ystyried hanes hir a balch cysylltiad y sir gyda'r Urdd, gyda'r brif swyddfa yn Aberystwyth a Gwersyll Llangrannog ym Mae Ceredigion. Ar ran Cyngor Sir Ceredigion a'n partneriaid yng Nghymdeithas Lywodraeth Leol Cymru, dymunaf bob llwyddiant posib i Eisteddfod yr Urdd 2010 gan groesawu pawb sy'n cymryd rhan, eu teuluoedd a'u cefnogwyr yn gynnes iawn i Geredigion."

Dydd Iau, canfuwyd problem gyda chyflenwad a system ddŵr y Maes, a chymerwyd camau i gywiro'r sefyllfa a sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr i ymwelwyr a gweithiwr ar y Maes, Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ceredigion, Dŵr Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac asiantaethau eraill i ddatrys y mater. Roedd y mater yn effeithio Maes yr Eisteddfod yn unig. Bydd cyflenwad llawn o ddŵr ar y Maes fel arfer.

Dylai Eisteddfodwyr sy'n teithio mewn car ddilyn yr arwyddion am Aberaeron ac yna dilyn yr arwyddion melyn fydd yn arwain at y meysydd parcio

Nid teithio mewn car yw'r unig opsiwn i Eisteddfodwyr eleni. Bydd bws arbennig gan Arriva Cymru, Bws yr Eisteddfod, yn wasanaeth rhwng Aberaeron, Maes yr Eisteddfod yn Llanerchaeron a Llanbedr Pont Steffan, gyda bws bob hanner awr o 9.30 y bore tan 5.30 yr hwyr dros gyfnod yr Eisteddfod. Mae mwy o wybodaeth gan TravelineCymru – 0871 2002233 ac mae'r amserlen ar gael ar www.travelinecymru

A gall Eisteddfodwyr heini ddefnyddio'r llwybr beic pwrpasol o Aberaeron i Lanerchaeron. Mae'r llwybr yn dilyn trywydd yr hen rheilffordd ar hyd yr afon Aeron gyda rhannau ar hyd ffyrdd tawel y wlad ym mhob pen. Ar wahan i ychydig o riw wrth ddod i mewn i Aberaeron mae'r llwybr ar y cyfan yn un gweddol wastad ac yn addas ar gyfer pawb o bob safon.

A gyda lle pwrpasol i barcio beiciau ar faes yr Eisteddfod does dim esgus peidio bod yn wyrdd!

Ar ddydd Sadwrn 5 Mehefin bydd cynnig arbennig dau am bris un a phlant am ddim yn siwr o brofi'n boblogaidd… ond peidiwch â'i gadael hi tan hynny – dewch i flasu arlwy'r Eisteddfod gydol yr wythnos!

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
30 May 2010

A CARDI WELCOME!

On Sunday evening the curtains will rise on the National Urdd Eisteddfod held this year on the National Trust Estate in Llanerchaeron, Ceredigion. With a truly scenic backdrop Urdd Gobaith Cymru looks forward to welcoming 15,000 young competitors and up to 100,000 visitors to the festival over the coming week.

Events will kick off in the Eisteddfod Pavilion this evening with a spectacular opening concert showcasing a wealth of local talent. Under the direction of renowned choir master Islwyn Evans Ysgol Gerdd Ceredigion choir, Rhys Taylor, Rakhi Singh, Rhian Lois, Gwawr Edwards and others will return to the Eisteddfod stage to wow the audience.

From Monday to Saturday, the Eisteddfod will offer a fabulous day out for all the family. With competing on the Eisteddfod stage from dawn till dusk, all Eisteddfod goers should experience the atmosphere and the high standards of the performances in the Pavilion, included in the admission ticket. Following the partnership launched at last year's festival, Disneyland Paris and the Urdd National Eisteddfod are happy to announce that the winners of five competitions (Solo Yr 2 and younger [166], Solo Yr 5 and 6 [168], Boys Solo Yrs 7,8 and 9 [253] and Solo from a Musical Yr 10 and under 19 [185]) will be invited to Disneyland Paris' Welsh Festival next March.

The Eisteddfod Maes has endless activities and attractions for visitors of all ages. Pentre Mistar Urdd will be a hive of activity every day, showcasing all the Urdd attractions, with fruity cocktails, face painting, clowns, podcasting, balloon artistry, a cartoon artist, beat boxing with Ed Holden, S4C's children presenters, and a chance to meet, and have your picture taken with Mistar Urdd! There will also be a miniature train leaving Pentre Mistar Urdd – offering festival-goers a chance to put their feet up while they enjoy a guided tour of the Maes and the beautiful grounds of Llanerchaeron.

Energetic Eisteddfod visitors will have ample opportunity to show their sporting skills on the Maes, with the Urdd Sport's Department leading football, rugby, cricket, golf, volley-ball, basket-ball and hockey sessions all week. Glan-llyn and Llangrannog centre staff will also offer archery, quad biking, trampolining and climbing sessions.

A new attraction on this year's Maes will be the cutting-edge science exhibition, named Gwyddon*Le*. During the Eisteddfod week, there will be plenty to keep the young and old entertained in Gwyddon*Le.* There will be a range of science exhibits and competitions, including space and solar system activities funded by the Science and Technology Facilities Council and supported by scientists from Aberystwyth University and the wider community.

Local primary schools in Ceredigion have created models of the sun and planets and these can be seen on the Maes.

Tudur Dylan Jones, Chair of Urdd Gobaith Cymru's Eisteddfod and the Arts Board says: "Another new initiative this year is the Bwyty, offering good food in a restaurant atmosphere. The menu will use many local ingredients and give those who wish to do so a chance to relax and enjoy a meal in a different kind of eatery to what we usually offer at the Urdd Eisteddfod.

Our partners in this new venture are Wales the True Taste and Cwmni Dolen. We are confident that we offer a new provision for our visitors this year, and that the Bwyty will be a success."

Cwtsh Cymraeg is another new attraction – the place to be for Welsh learners and literary fans. For the first time, the Eisteddfod's literary winners can be seen on a plasma screen in the Cwtsh reading and discussing their work. There is a story corner, a mural of favourite words, meet the author sessions and much more.

Wales' most exciting bands will be performing on the outdoor stage, and in the Stiwdio Fach all kinds of music workshop will take place – chose form hip hop, acoustic, rock, DJ and more. And on Saturday, 5 June the Urdd and Ceredigion YFC will present Elin Fflur and local band Fushanti in a gig at Aberaeron Rugby Club.

The Art, Design and Technology exhibition is another not to be missed attraction, showcasing the best young talent with ceramics, paintings, weaving and photography on display. The theme for 2010's exhibition is Teimladau (Feelings).

Deian Creunant, Chair of the local executive committee says:
"The Urdd has strong support in Ceredigion, and the organisation touches the lives of most of the local youngsters. Over the past three years of fundraising and awareness raising the enthusiasm shown by people, young and old, across the county has been staggering. We're all looking forward to every minute of the festival and welcoming everyone to Ceredigion and to the Eisteddfod itself. One of the highlights for me will be being in the audience for the shows and concerts – a definite treat. There will be a warm welcome for all who visit the Eisteddfod and Ceredigion this week."

Aled Sion, Urdd Gobaith Cymru's Eisteddfod and the Arts Director says:

"This week is the culmination of three years hard work by a diligent team of local volunteers. It is with extreme pleasure that I can announce today that the local fund has passed the target of £300k, and the Urdd is extremely grateful to all who contributed. The Urdd is also indebted to Ceredigion Council for their support, and to the WLGA for their funding."

Councillor EJ Keith Evans, the Leader of Ceredigion County Council welcomes the Eisteddfod to Llanerchaeron, saying:

"It is an honour and a privilege for Ceredigion County Council to welcome the Urdd Gobaith Cymru National Eisteddfod to the county. The Urdd Eisteddfod is now given funding

assistance - in a package coordinated by the Welsh Assembly Government and the Welsh Local Government Association - that involves contributions by all of the local authorities in Wales as well as the Assembly Government, of course. That means Urdd Gobaith Cymru possibly has the future option of visiting a far greater range of areas within Wales as the event may no longer be at the mercy of any one area's inability to assist. It is really pleasing that that new arrangement has kicked off here in Ceredigion, given the county's long and proud history of association with Urdd Gobaith Cymru where both its headquarters and its major facility at Llangrannog are based. On behalf of Ceredigion County Council and our partners within the Welsh Local Government Association, I wish the 2010 Urdd National Eisteddfod every possible success and welcome all participants, their families and supporters, to enjoy the warmest possible welcome to Ceredigion."

On Thursday, we encountered a problem with the water supply system on the Maes and steps were taken to rectify the situation to ensure a safe and secure supply of water for visitors and people working on the site. We have worked closely with Ceredigion County Council, Dŵr Cymru Welsh Water, the Drinking Water Inspectorate and other agencies to resolve this matter. The issue only related to the Eisteddfod Maes. There will be a full water supply on the Maes as usual.

Visitors coming by car should follow the yellow signposts which will be in place on all main roads leading to the Eisteddfod, leading motorists directly to the Eisteddfod field and to the appropriate car parks.

However, travelling by car isn't the only option open to those visiting the Eisteddfod. There will be a special Arriva bus available to those travelling between Aberaeron and Llanerchaeron and Lampeter and Llanerchaeron operating half hourly from 9:00am to 5:30pm. The timetable is available to download at www.arrivabus.co.uk or contact Traveline for more information on 0871 200 22 33.

And for the more energetic Eisteddfodwr, Llanerchaeron is situated on a 3km cycle route through the pleasant Aeron Valley linking the coastal town of Aberaeron with the National Trust property at Llanerchaeron. The gravel surfaced route follows the old railway line alongside the river Aeron with short sections of quiet country roads at each end. Apart from a moderate uphill section at the Aberaeron end the route is generally flat and is suitable for most grades of cyclist. And with cycle racks available to store bikes on the 'maes', there's no excuse not to get on your bike!

On Saturday 5 June, a special offer of two adult tickets for the price of one and kids go free should prove popular with the local people – but don't leave it until then – come and sample what the Eisteddfod has to offer all week!

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.

- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.